

Atodiad 2A - Cofnodion Cyfarfod gyda Chyngor Ysgol Gyfun Aberpennar

Dyddiad	8 Ionawr 2025
Amser	13:30
Lleoliad	Ysgol Gyfun Aberpennar

Yn bresennol		
Enw	Llythrennau cyntaf yr enw	Teitl
Lisa Howell	LH	Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion
Sarah Corcoran	SC	Pennaeth Cyflawniad a Lles
Bethan Gannon	BG	Swyddog Cymorth – Gwella Ysgolion
25 aelod o Gyngor Ysgol Gyfun Aberpennar		

1. Croeso a Chyflwyniadau

Estynnodd SC a LH groeso i bawb, gan ddiolch iddyn nhw am ddod i'r cyfarfod. Cafodd pawb ei gyflwyno i'w gilydd.

2. Trosolwg o'r Ymgynghoriad

Rhoddodd SC drosolwg o'r cynnig a'r broses ymgynghori i'w dilyn, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y Ddogfen Ymgynghori.

3. Cwestiynau'r Cyngor Ysgol

Gwahoddwyd Cyngor Ysgol Gyfun Aberpennar i ofyn cwestiynau a darparu unrhyw adborth neu sylwadau ar y cynigion. Mae'r cwestiynau a'r sylwadau a godwyd gan y Cyngor Ysgol a'r ymatebion a ddarparwyd wedi'u crynhoi yn y tabl sy'n dilyn.

Rhif	Cwestiwn/Sylw	Ymateb
1	Pam mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am gau chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar?	Mae'r rhesymau dros gyflwyno'r cynnig wedi'u cynnwys yn y Ddogfen Ymgynghori. Ym mhob ysgol, rydyn ni'n edrych ar y ddarpariaeth ôl-16 ac rydyn ni am sicrhau bod yr addysg a gaiff ei chynnig cystal ag y mae modd iddi fod a bod y llwybrau gorau ar gyfer y dyfodol yn cael eu darparu.
2	Beth am y disgyblion fydd yn ei chael hi'n anodd cael cludiant i Ysgol Gymunedol Aberdâr?	Rydyn ni'n credu y byddai pob disgybl sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar â hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol.
3	Ar gyfartaledd, mae Ysgol Gyfun Aberpennar yn gwneud yn well nag Ysgol Gymunedol Aberdâr.	Nid yw hyn yn wir. Mae'r ddwy ysgol yn ysgolion da.

4	Mae canlyniadau a chefnogaeth dda yn Ysgol Gyfun Aberpennar. Ai'r niferoedd isel yn unig sy'n llywio'r penderfyniad i gau'r chweched dosbarth?	Mae nifer o resymau dros gyflwyno'r cynnig. Un o'r rhain yw'r niferoedd isel o ddisgyblion yn y chweched dosbarth. Mae'r niferoedd isel yn cael effaith ariannol ac yn cael effaith negyddol ar gyllideb yr ysgol. Mae'r rhesymau yma dros ymgynghori ar y cynnig i gyd wedi'u cynnwys yn y ddogfen ymgynghori.
5	O ran trefniadau teithio, bydd cludiant o Benrhiwceiber yn cael ei atal y flwyddyn nesaf. A fyddai hyn yr un peth pe bai'n rhaid i ni deithio i Ysgol Gymunedol Aberdâr?	O ystyried y pellter, bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i ddisgyblion sy'n byw ym Mhenrhiwceiber sy'n teithio i Ysgol Gymunedol Aberdâr.
6	Rydych chi'n dweud mai dim ond nifer fach o opsiynau y mae Ysgol Gyfun Aberpennar yn eu cynnig o gymharu ag ysgolion eraill. Faint yn fwy o opsiynau mae'r ysgolion eraill yn eu cynnig?	Nid oes gyda ni'r wybodaeth yma wrth law, ond bydd yn cael ei chynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori. Nodyn ar ôl cyfarfod: Mae Ysgol Gyfun Aberpennar yn cynnig 13 pwnc ym mlwyddyn 12 ac 8 pwnc ym mlwyddyn 13. Dyma nifer isel, ac mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ddisgyblion gael mynediad at 20 pwnc er mwyn i ddarpariaeth chweched dosbarth fod yn hyfyw.
7	Yn fy marn i, nid yw'n deg cael dewis rhwng mynd i Ysgol Gymunedol Aberdâr neu goleg. Dyw hi ddim yn deg bod yr opsiwn i barhau â'n haddysg chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar wedi'i ddileu.	Mae hyn yn ddealladwy, ac rydyn ni'n nodi eich pryder.
8	Sut y mae modd i ni warantu y bydd digon o gefnogaeth i ni yn Ysgol Gymunedol Aberdâr os bydd mwy o ddisgyblion yno?	Caiff ysgolion eu hariannu fesul disgybl, felly bydd cefnogaeth ddigonol yn cael ei darparu.
9	A fydd gwahaniaeth i ddisgyblion o ran costau, megis cludiant a gwisg ysgol?	Rydyn ni eisoes wedi trafod trefniadau cludiant. O ran gwisg ysgol, dydyn ni ddim yn siŵr a oes gwahaniaeth yn y costau, fodd bynnag, bydd cymorth a chefnogaeth ar gael. I nodi, mae gwisg chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar yn wahanol i'r wisg ym mlynnyddoedd 7 i 11, felly pe baech chi'n dewis parhau â'ch addysg ôl-16 yn Ysgol Gyfun Aberpennar, byddai angen gwisg ysgol newydd arnoch chi.

10	A oes modd i chi ddweud wrthym ni faint y mae niferoedd y chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar wedi gostwng?	Gan fynd yn ôl deng mlynedd, mae gostyngiad o 60.0% wedi bod yn nifer y disgyblion sy'n dychwelyd ac erbyn hyn mae llai na 30.0% yn dychwelyd.
11	A ydych chi wedi ystyried y gallai COVID-19 fod wedi cael effaith ar niferoedd chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar?	Bydd gan Ysgol Gyfun Aberpennar yr wybodaeth honno ynghylch pam mae gostyngiad yn niferoedd y chweched dosbarth ac a fyddai hynny oherwydd COVID-19 ai peidio. O ran COVID-19, nid oes unrhyw dystiolaeth eto yn nodi ei fod wedi cael effaith uniongyrchol ar yr hyn y mae disgyblion yn ei wneud nawr, ond mae nifer y disgyblion sy'n dilyn cynlluniau prentisiaeth wedi cynyddu.
12	Sylw: Rydw i wedi clywed gan ffrindiau a theulu nad yw aelodau o staff mor gefnogol yn Ysgol Gymunedol Aberdâr o gymharu ag Ysgol Gyfun Aberpennar.	Rydyn ni'n nodi eich pryder ond nid yw hyn yn wir.
13	Ydych chi wedi edrych ar sut y bydd hyn yn effeithio ar y gymuned?	Mae'r effaith ar y gymuned wedi'i hystyried. Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ar gyfer y cynnig wedi'i baratoi yn unol â gofynion <u>Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018)</u> .
14	Mae disgyblion yn poeni am faterion iechyd meddwl gan fod Ysgol Gyfun Aberpennar yn fan diogel iddyn nhw ac maen nhw'n adnabod eu hathrawon.	Codwyd hyn gan aelodau o staff Ysgol Gyfun Aberpennar ac mae pawb yn teimlo effaith newid yn wahanol. Bydd y rhai sy'n dioddef gan orbryder yn teimlo straen yn fwy nag eraill. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai proses bontio effeithiol yn hollbwysig wrth reoli unrhyw newid. Lle mae hyn wedi digwydd o'r blaen, mae'r broses bontio wedi cael ei rheoli'n dda.
15	Sylw: Poeni na fydd mwy o ddisgyblion yn parhau ag addysg oherwydd bod adborth negyddol o Ysgol Gymunedol Aberdâr. Mae disgyblion Ysgol Gyfun Aberpennar yn awyddus i gael gyrfa ac yn pryderu y bydd disgyblion mewn swyddi heb gyfleoedd datblygu yn y pen draw, a hynny dim ond oherwydd bod eu dewis o aros yn Ysgol Gyfun Aberpennar wedi'i ddileu.	Mae hyn yn ddealladwy, ac rydyn ni'n nodi eich pryder.

16	A fydd cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar yn cyfyngu ar ein hopsiynau?	<p>Na fydd. Mae gan chweched dosbarth mwy o faint fwy o botensial ar gyfer arbedion maint ac effeithlonrwydd ariannol y mae modd eu cronni a'u hail-fuddsoddi er budd pob disgybl. Mae dosbarthiadau chweched dosbarth mwy hefyd yn galluogi darpariaeth addysg ôl-16 eang a chytbwys i ddisgyblion sy'n bodloni anghenion disgyblion unigol yn well ac felly byddai modd i hyn wella deilliannau disgyblion.</p> <p>Byddai trosglwyddo disgyblion chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar i Ysgol Gymunedol Aberdâr yn creu mwy o gyfleoedd rhyngweithio cymdeithasol sy'n cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Gallai hefyd fod mwy o hyblygrwydd i ddisgyblion oherwydd yr amgylchedd addysgol estynedig a gwell ar gyfer dysgu a datblygu.</p>
17	Beth fydd yn digwydd i swyddi'r athrawon sy'n addysgu'r chweched dosbarth yn bennaf?	Mae gan y Cyngor bolisiau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cadarn a fydd yn rhoi sicrwydd i aelodau o staff a chyflogwyr ynglŷn â rheoli newid sefydliadol.
18	Mae modd i newid achosi llawer o straen i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Sut byddan nhw'n cael eu cefnogi?	<p>Bydd pob disgybl ag ADY yn parhau i dderbyn cymorth. Mae <u>Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018</u> yn darparu canllawiau manwl ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau Cyngorau wrth ddiwallu ADY plant a phobl ifainc.</p> <p>Mae <u>Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2021)</u> yn argymhell bod lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ac ysgolion yn mabwysiadu ymateb graddedig i ddiwallu ADY plant a phobl ifainc. Mae ymateb graddedig yn golygu bod modd cyflwyno rhagor o arbenigedd a rhagor o gymorth er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau y mae plentyn neu unigolyn ifanc yn eu hwynebu. Dylid gwneud darpariaeth ychwanegol neu wahanol gan ddibynnu ar ddifrifoldeb lefel angen y plentyn / person ifanc.</p> <p>Byddwn ni'n cyflawni'r ddyletswydd a'r cyfrifoldeb yma ni waeth be fo'r ysgol</p>

		mae'r plentyn/person ifanc yn ei mynychu.
19	Sylw: Mae'n ymddangos y bydd pawb yn dioddef yn hytrach na'n cael budd o'r cynnig oherwydd y ffordd y mae aelodau o staff Ysgol Gymunedol Aberdâr yn trin eu disgyblion.	Rydyn ni'n nodi eich pryderon, ond mae plant ym mhob ysgol yn cael eu trin yn briodol.
20	Mae disgyblion Ysgol Gyfun Aberpennar wedi meithrin perthynas â'u hathrawon ac yn pryderu y bydd mynd i Ysgol Gymunedol Aberdâr yn gwneud iddyn nhw deimlo fel eu bod nhw ar y cyrion.	Rydyn ni wedi cael enghreifftiau o hyn gyda dosbarthiadau chweched dosbarth eraill sydd wedi cau yn y gorffennol, ac mae gan rai o'r disgyblion bethau cadarnhaol i'w dweud a doedden nhw ddim yn teimlo fel eu bod nhw ar y cyrion. Byddai'n dda cael y disgyblion hynny sydd wedi profi'r un newid i drafod hyn gyda chi. Ar ôl dwy flynedd o astudio yn y chweched dosbarth, byddwch chi'n gadael yr ysgol a bydd angen i chi arfer â newid felly mae'n mynd i ddigwydd ar un adeg.
21	Sylw: A minnau ym mlwyddyn 10, rydw i wedi siarad â chyd-ddisgyblion, mae llawer ohonyn nhw'n dweud eu bod am aros yn Ysgol Gyfun Aberpennar.	Mae hyn yn ddealladwy, ac rydyn ni'n nodi eich pryder.
22	Pan symudon ni o flwyddyn 6 i flwyddyn 7, doedd dim pontio o gwbl.	Roedd hyn yn ystod COVID-19 ac roedd y broses bontio yn anodd pan nad oedd modd i ni gymysgu, ond dydyn ni ddim mewn pandemig byd-eang bellach a bydden ni'n disgwyl i'r broses fod yn hollol wahanol.
23	Sut bydd Ysgol Gymunedol Aberdâr yn addasu gyda disgyblion ychwanegol?	Mae lleoedd ar gael yn Ysgol Gymunedol Aberdâr
24	Bydd disgyblion yn cael dechrau arafach ac anoddach oherwydd bod yn rhaid iddyn nhw addasu i wahanol ffyrdd o ddysgu gyda thechnoleg newydd.	Bydd hyn yn cael ei ddiwallu, a bydd yn fuddiol gan y bydd modd i ddisgyblion ddefnyddio'r ddwy dechnoleg.
25	Bydd gan ddisgyblion Ysgol Gymunedol Aberdâr berthynas agos â'u hathrawon ond ni fydd gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Aberpennar y perthnasoedd hynny.	Unwaith eto, mae'n gyfle i feithrin sgiliau wrth i chi ddod yn oedolyn a meithrin eich gallu i ffurfio perthynas â phobl eraill.
26	Sylw: Mae rhai disgyblion sy'n mynychu lleoliadau eraill ar gyfer gwersi yn dal i ddod yn ôl at eu hathrawon yn Ysgol Gyfun Aberpennar i gael cymorth ganddyn nhw gan nad ydyn nhw'n cael unrhyw gymorth yn y lleoliadau eraill.	Rydyn ni'n nodi eich pryder, ond mae cymorth bugeiliol ar gael ym mhob ysgol.
27	Beth yw eich barn? A ddylid cau'r chweched dosbarth?	Mae angen i ni goladu'r holl wybodaeth yn gyntaf. Rydyn ni'n defnyddio'r

		wybodaeth ffeithiol, ond nid yw'n cynnwys calon yr ysgol, a dyna pam mae rhaid i chi ei nodi'n ysgrifenedig, yn yr un modd â rhieni/gwarcheidwaid a staff.
28	Yn lle cau chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar, a oes modd i chi ychwanegu at y cyfleoedd sydd gyda ni eisoes?	<p>Mae gan chweched dosbarth mwy o faint fwy o botensial ar gyfer arbedion maint ac effeithlonrwydd ariannol y mae modd eu cronni a'u hail-fuddsoddi er budd pob disgybl. Mae dosbarthiadau chweched dosbarth mwy hefyd yn galluogi darpariaeth addysg ôl-16 eang a chytbwys i ddisgyblion sy'n bodloni anghenion disgyblion unigol yn well ac felly byddai modd i hyn wella deilliannau disgyblion.</p> <p>Byddai trosglwyddo disgyblion chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar i Ysgol Gymunedol Aberdâr yn creu mwy o gyfleoedd rhyngweithio cymdeithasol ac yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Gallai hefyd fod mwy o hyblygrwydd i ddisgyblion oherwydd yr amgylchedd addysgol estynedig a gwell ar gyfer dysgu a datblygu.</p>

4. Sylwadau i Gloi

Cafodd aelodau'r Cyngor Ysgol eu hannog i gymryd rhan drwy lenwi'r arolwg ar-lein, neu anfon sylwadau ysgrifenedig i CynllunioYsgolion@rctcbc.gov.uk

Rhoddyd diolch i bawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:45.